Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 1065 (Cy. 178)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2024

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1022 (Cy. 119)) ("y prif Reoliadau"), sy'n gwneud darpariaethau ynghylch y cyffuriau, y meddyginiaethau neu'r sylweddau eraill y caniateir eu harchebu ar gyfer cleifion wrth ddarparu gwasanaethau meddygol o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol ("contract GMC") o fewn ystyr adran 42 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42).

Mae rheoliad 2(2) yn hepgor y diffiniad o "general medical practitioner" er mwyn ehangu i bwy y mae'r cyfyngiadau yn y prif Reoliadau yn gymwys. Mae'r newid hwn yn cydnabod y cynnydd yn y defnydd o ragnodwyr annibynnol (gan gynnwys rhagnodwyr meddygol ac anfeddygol) mewn lleoliadau GMC ac mae'n ei gwneud yn eglur bod y cyfyngiadau yn gymwys i unrhyw berson sy'n rhagnodi o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol, gan gynnwys rhagnodi gan ragnodwyr annibynnol.

Mae rheoliad 2(3) yn diwygio'r geiriad yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau er mwyn egluro bod y cyfyngiadau'n ymwneud ag unrhyw bresgripsiynau o analog hormon sy'n rhyddhau gonadotroffin ("GnRH") o dan gontract GMC.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 1065 (Cy. 178)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *am 9.18 a.m. ar 25 Hydref 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *am 3.45 p.m. ar 25 Hydref 2024* |
| *Yn dod i rym* | *15 Tachwedd 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 46(2), 203(9) a (10) a 204(1)(b) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006([1]), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 15 Tachwedd 2024.

### Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol

(**1**) 2006 p. 42.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 1 (enwi, cychwyn a chymhwyso) mewnosoder—

**"Interpretation**

**1A.** In these Regulations, "general medical services contract" means a general medical services contract under section 42 of the National Health Service (Wales) Act 2006(**2**) (general medical services contracts: introductory)."

(3) Yn Atodlen 2 (cyffuriau neu feddyginiaethau sydd i'w harchebu o dan amgylchiadau penodol yn unig)—

(a) Yn y tabl, yng ngholofn 2 (*claf*), yn y cofnod ar gyfer "GnRH analogue", ym mharagraff (2), yn lle "to whom the general medical practitioner is providing treatment under the contract" rhodder "who is receiving treatment under a general medical services contract".

(b) Ar ôl y tabl, yn y ddarpariaeth ddehongli, hepgorer y diffiniad o "general medical practitioner".

*Jeremy Miles*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Am 9.18 a.m. ar 25 Hydref 2024

(**1**) O.S. 2004/1022 (Cy. 119); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2005/366 (Cy. 32), O.S. 2009/1838 (Cy. 166), O.S. 2013/683 (Cy. 81), O.S. 2014/109 (Cy. 09), O.S. 2016/90 (Cy. 43), O.S. 2020/1396 (Cy. 309) ac O.S. 2024/774 (Cy. 115).

(**2**) 2006 p. 42.